



Sylfaen gadarn dros newid

Tuag at fodel gweithredu newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru

Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae grŵp o arweinwyr, prif weithredwyr ac arbenigwyr llywodraeth leol wedi bod yn archwilio sut y gall Llywodraeth newydd weithio gyda'r sector i ddatblygu model gweithredu newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.¹

Mae'r nodyn hwn yn dod â'r casgliadau a'r argymhellion rydym ni, y grŵp, wedi'u cyrraedd at ei gilydd. Byddai'r pecyn hwn o fesurau yn creu'r amodau i'r sector ddatblygu dyfodol mwy cynaliadwy i gynghorau. Darperir rhestr lawn o'r safbwyntiau a'r argymhellion isod.

Mae'r grŵp yn galw ar y llywodraeth newydd i weithredu'n gyflym er mwyn:

- Mynd i'r afael â gwendid systemig y system gyllid bresennol trwy gyflwyno mesurau sy'n cynyddu gwytnwch ac ymreolaeth cynghorau.
- Symleiddio a chryfhau'r dull o atebolrwydd, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol yn ogystal â darparu dull mwy cadarn a systemig o asesu perfformiad ac iechyd ariannol cynghorau.
- Gweithio gyda'r sector i ddatblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu a mynd i'r afael â'r bylchau presennol a disgwylidig o ran sgiliau.
- Buddsoddi mewn ailadeiladu'r gallu i arloesi yn y sector fel bod ymdrech gydgysylltiedig dan arweiniad y sector i ddatblygu, profi a gweithredu modelau newydd o gyflawni.

Mae angen i'r camau hyn, a'r argymhellion cysylltiedig, gael eu hategu gan gyfundeb ar bwrpas a swyddogaethau cynghorau, a gweledigaeth a rennir ar gyfer sut olwg fydd ar gyngor y dyfodol.

Bydd angen bod camau gweithredu Llywodraeth Cymru hefyd yn cyd-fynd â chymau gweithredu o fewn y sector a chan y sector. Dim ond gydag arweinyddiaeth yn y sector y gellir datblygu model newydd, mwy cynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol. Gall llywodraeth newydd hwyluso a galluogi newid, ond ni fydd hyn yn ddigon. Mae angen i arweinwyr yn y sector ymgymryd â'r her o ddatblygu modelau mwy cynaliadwy ar y cyd â chynghorau eraill, cyrff cyhoeddus eraill, a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Ebrill 2026

¹ Gweler [Atodiad](#) i gael rhagor o fanylion am gyfansoddiad y grŵp.

Safbwyntiau ac argymhellion y grŵp

Nid yw'r model presennol o lywodraeth leol bellach yn gynaliadwy. Mae pwysau ariannol, gan gynnwys cynnydd cyflym yn y galw am wasanaethau statudol (yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol, addysg a darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, tai a digartrefedd) ac effeithiau parhaus blynyddoedd o lymder, wedi golygu bod llywodraeth leol wedi gorfod ymestyn, gwneud arbedion ac ail-lunio i barhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

I'r rhan fwyaf o awdurdodau, mae mwy na dwy ran o dair o'r gyllideb yn cael ei wario ar dri maes cost yn unig: gwasanaethau cymdeithasol, addysg, a thai a digartrefedd. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau wedi cynnal darpariaeth gwasanaethau rheng flaen a gweithluoedd i raddau rhyfeddol o dda, mae darpariaeth mewn gwasanaethau eraill, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf gweladwy i'r cyhoedd (e.e. cynnal a chadw ffyrdd, pyrth cyhoeddus, manau cyhoeddus), wedi'i gwasgu ac mae gweithluoedd y cyngor wedi'u torri.

Mae hyn wedi arwain at dynnu swyddogaethau strategol a chynllunio hirdymor cyngorau, gydag uwch staff yn canolbwyntio yn hytrach ar ateb y galw cynyddol am wasanaethau a phwysau costau tymor byr.

Mae cyfuniad o ffactorau gan gynnwys salwch, poblogaeth sy'n heneiddio gyda chyfraddau ffrwythlondeb isel, a lefelau isel o dwf economaidd yn golygu bod y galw a chostau yn debygol o barhau i godi i'r dyfodol hyd y gellir rhagweld ac nid yw'r amlen ariannol gyffredinol yn debygol o gynyddu'n sylweddol. Byddai hyn yn golygu bod cyfran gynyddol o'r gyllideb yn cael ei wario ar fynd i'r afael â gwasanaethau statudol sy'n cael eu harwain gan y galw, sy'n effeithio'n ddifrifol ar ddarpariaeth mewn manau eraill ac yn cael goblygiadau ar gyfer ymgysylltu democrataidd.

Nid oes modd datblygu'r dulliau sydd wedi'u cymryd yn hanesyddol i ymdopi â chyllidebau sy'n lleihau mwyach, yn ogystal â chynnal darpariaeth gwasanaethau rheng flaen ar yr un pryd. Er enghraifft, prin y gellir lleihau capasiti swyddfa gefn ymhellach ac mae'r rhan fwyaf o arbedion effeithlonrwydd eisoes wedi'u gwneud. Mae hyn wedi bod yn wir ers cyn pandemig Covid-19 (Downe a Taylor-Collins, 2019). Felly mae perygl, os na wneir dim, efallai na fydd awdurdodau lleol bellach yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau statudol, gan arwain at hysbysiad adran 114 a methiant gwasanaethau effeithiol.

Byddai hyn yn arwain at ganlyniadau difrifol i'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r rôl arweinyddiaeth lle y mae ein dinasyddion yn ei werthfawrogi, yn ogystal ag ar gyfer gofalu am y rhai sy'n agored i niwed ac am gyfreithlondeb y wladwriaeth yn ei chyfanrwydd. Felly, mae angen ailfeddwl sut mae llywodraeth leol yn gweithredu, beth ddylai ei rôl fod, a sut mae'n cael ei ariannu, wedi'i lywio gan weledigaeth glir sy'n seiliedig ar bwrpas.

Mae'r meysydd a ystyriwyd gennym, a'r argymhellion a'r safbwyntiau rydym wedi'u mabwysiadu, wedi'u nodi isod.

Diben llywodraeth leol

Diben craidd llywodraeth leol yw'r **cysylltiad unigryw rhwng llywodraeth leol, dinasyddion, a lleoedd, sy'n cael ei ddangos gan ddemocratiaeth leol.** Dyma rai ffyrdd o hyn:

- Gall aelodau etholedig ddeall a chynrychioli buddiannau preswylwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau a chael eu dal i gyfrif am hyn.
- Gall cyngorau ddylunio a darparu gwasanaethau sy'n ymatebol i gyd-destunau lleol.
- Gall cyngorau chwarae rôl arweiniol yn eu hardaloedd lleol, gan gydweithio â chymunedau, sefydliadau'r trydydd sector, busnesau a chyrrff cyhoeddus eraill a chydlyn cyfraniadau, gyda'r nod o wella canlyniadau ar gyfer ardal leol a'i phoblogaeth.

Yn bwysig, swyddogaethau democrataidd a chynrychioliadol awdurdodau lleol sy'n galluogi'r cysylltiad hwn trwy ddarparu llinell olwg glir rhwng y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a dinasyddion. Nid ydym yn

credu mewn llywodraeth leol fel corff cyflenwi neu asiantaeth weinyddol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau a benderfynir gan eraill. Nid ydym ychwaith yn credu mewn gwleidyddiaeth leol fel microcosm ar gyfer gwleidyddiaeth genedlaethol a materion cenedlaethol. Yn hytrach, dylai llywodraeth leol bennu cyfeiriadau a gwneud penderfyniadau sy'n cael eu goruchwylio gan wleidyddion etholedig lleol, sy'n gysylltiedig â'u hardaloedd lleol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod ein perthynas â phobl leol wedi cael ei phrofi ac mae bellach, yn rhy aml, yn cael ei nodweddu gan siom, diffyg ymddiriedaeth a datgysylltiad. Wrth ddatblygu model newydd bydd angen i ni ailadeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltiad. Credwn fod gwerth, rôl a phwrpas llywodraeth leol yn gorwedd mewn adeiladu ac yn dangos y berthynas benodol rhwng lle, pobl a llywodraeth. Er mwyn bodloni hyn, bydd angen i ni symud tuag at fodel o hunanlywodraeth ddemocrataidd, gan gynnwys pobl leol wrth wneud penderfyniadau yn eu hardaloedd lleol a chytuno arnynt.

Swyddogaethau llywodraeth leol

Yn rhannol oherwydd pwysau cyllidol a galw, bu trafodaeth ynghylch a allai rhai swyddogaethau gael eu had-drefnu, naill ai fel nad ydynt bellach yn cael eu cyflawni gan lywodraeth leol neu fel eu bod yn cael eu cyflawni gan lywodraeth leol. **Nid oes gennym awydd am newidiadau radical i'r swyddogaethau y mae llywodraeth leol yn gyfrifol amdanynt yn y pen draw.**

Yng Nghymru, mae cynghorau yn gyfrifol am dros 1,450 o wasanaethau a swyddogaethau (Archwilio Cymru, 2021). Yn nodweddiadol, gwahaniaethir rhwng gwasanaethau 'statudol', sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, a gwasanaethau 'anstatudol' lle nad oes gofyniad cyfreithiol penodol i'w darparu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn aml yn glir yn ymarferol. Mae gwasanaethau anstatudol yn aml yn feysydd gweithgarwch hirsefydlog a gwerthfawr fel hamdden a difyrwch, ac mae gwasanaethau statudol yn aml yn cael eu darparu y tu hwnt i sylfeini cyfreithiol neu mewn cysylltiad â meysydd eraill o weithgarwch.

Nid ydym yn teimlo bod gwerth mewn tynnu cyfrifoldeb am ofal cymdeithasol oddi wrth awdurdodau lleol gan fod gan lywodraeth leol brofiad ac arbenigedd sefydliadol, perthnasoedd a rhwydweithiau sefydledig, a chysylltiadau â gwasanaethau cyhoeddus eraill y byddai angen eu hailadrodd gydag arian, amser ac adnoddau gan sefydliad arall. Byddai unrhyw sefydliad cyflenwi arall hefyd yn wynebu'r un problemau o alw cynyddol ac anawsterau ariannu ag y mae llywodraeth leol ar hyn o bryd.

Mae achos cryf dros integreiddio iechyd y cyhoedd yn well â gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol ond mae trosglwyddo cyfrifoldeb a swyddogaethau yn dod â risgiau, yn enwedig i awdurdodau llai nad oes ganddynt yr adnoddau i arfer y swyddogaethau hyn yn effeithiol. Byddai integreiddio'n well ag iechyd y cyhoedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd yn cefnogi ymyrraeth gynnar ac atal. Rydym yn cefnogi'r rhain fel blaenoriaeth i gynghorau, ond maen nhw ar hyn o bryd heb adnoddau oherwydd yr angen i fynd i'r afael ag angen aciwt a'r galw am wasanaethau statudol.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa swyddogaethau, a pha elfennau o swyddogaethau, sy'n cael eu cynnal a'u cyflawni orau ar lefel leol neu hyper-leol, a pha rai y gellid eu cyflawni neu eu cynnal mewn cydweithrediad ag eraill (er enghraifft cynghorau lleol eraill neu gyrff cyhoeddus eraill), a/neu ar lefel genedlaethol. Nid oes angen i hyn olygu ad-drefnu swyddogaethau ffurfiol (er y gallai). Gallai olygu gwahanu agweddau ar swyddogaethau i weld pa rai y gellid eu cyflawni ar wahanol lefelau. Er enghraifft, gallai cyfeiriad strategol ar gyfer meysydd fel datblygu economaidd fod yn fwy naturiol ar lefel ranbarthol, ond gallai penderfyniadau 'tactegol' neu weithredol a chyfrifoldeb cyflawni aros ar lefel leol.

Rydym yn cefnogi **cydweithio** rhwng cynghorau a gwasanaethau eraill lle mae hyn yn ychwanegu gwerth ac nad yw'n dyblygu. Mae partneriaethau cydweithio yn seiliedig ar ddiddordebau a blaenoriaethau a rennir, sy'n cael eu hadeiladu o'r gwaelod i fyny a gydag ymdeimlad cryf o berchnogaeth, yn fwy tebygol o ddarparu gwerth ychwanegol fel lleihau costau, mwy o wydnwch neu wella ansawdd a gwasanaeth. Bydd cydweithio hefyd yn allweddol ar gyfer datblygu dulliau amlasiantaeth ar y cyd fel dulliau gweithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Er bod gan bolisi, deddfwriaeth a chyllid cenedlaethol rôl wrth hwyluso cydweithio, lle nad oes gan brosesau neu ffurfiau o gydweithio bwrpas clir, maent mewn perygl o fod yn ddim mwy nag ymarferion biwrocraidd.

Mae angen addasu a symleiddio tirwedd partneriaeth ranbarthol presennol oherwydd ei bod yn rhy aml yn gymhleth, wedi'i dyblygu a heb adnoddau i wneud newid effeithiol. Gallai gweithio mewn partneriaeth yn well ddilyn o strwythur rhanbarthol cytûn a mwy effeithlon a ddatblygwyd ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae'r angen am **partneriaeth gryfach rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru** yn sail i'n holl argymhellion, wedi'i adeiladu ar ymddiriedaeth a pharch i'r ddwy ochr a dealltwriaeth a rennir o bwrpas a swyddogaethau cynghorau, a gweledigaeth a rennir ar gyfer sut olwg fydd ar gyngor y dyfodol. Bydd hyn yn hanfodol wrth sicrhau ffyrdd gwell o weithio neu system gyllid ddigonol, ond hefyd wrth sicrhau y gallwn ddatblygu modelau gweithredu newydd sy'n addas ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb
Addasu a symleiddio'r dirwedd partneriaeth ranbarthol	Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol
Gweithio mewn partneriaeth yn well rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol	Llywodraeth Cymru Llywodraeth leol

Cyllid llywodraeth leol

Mae gwella'r system gyllid bresennol i lywodraeth leol yn hanfodol i unrhyw agenda diwygio ac mae'n flaenoriaeth uniongyrchol ar gyfer gweithredu. Canfu asesiad annibynnol a gomisiynwyd ar gyfer y grŵp (Muldoon-Smith, 2026) fod gan y system gyllid bresennol i lywodraeth leol yng Nghymru wendidau systemig. Mae disgrisiwn wedi'i gyfyngu gan ofynion rheoleiddiol a'r angen i ariannu gwasanaethau a arweinir gan y galw, ac nid oes llawer o ymreolaeth ariannol wirioneddol. Er bod cryfderau hefyd yn system gyllid Cymru, mae'r asesiad cyffredinol yn system sydd â 'gwytnwch ac ymreolaeth isel' (Muldoon-Smith, 2026: 37).

Fodd bynnag, o ystyried cyd-destun cyffredinol o gyfyngiadau cyllidol sylweddol, nid ydym yn gweld llawer o sgôp i gynyddu'r amlen ariannu ar gyfer llywodraeth leol yn sylweddol. Felly, mae angen dod o hyd i ffyrdd i wneud i'r setliad presennol weithio'n fwy effeithiol, cynyddu'r hyblygrwydd a'r cyfleoedd codi refeniw sydd ar gael i awdurdodau lleol, a symleiddio prosesau goruchwyllo a monitro i sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio'n well â'i gilydd. **Bydd diwygiadau sy'n cynyddu gwytnwch ac ymreolaeth llywodraeth leol yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu model gweithredu newydd ac yn cefnogi cynaliadwyedd llywodraeth leol yn y dyfodol.**

Dylai'r egwyddor arweiniol o ddiwygio fod yn sybsidiaredd ac ymreolaeth ystyrlon ar gyfer llywodraeth leol, gan adlewyrchu'r angen i alinio cyfrifoldeb cyflawni â rheolaeth dros refeniw cyn belled ag y bo modd.

Dylai hefyd fod rhagdybiaeth y dylai unrhyw gyfrifoldebau sydd gan lywodraeth leol gyd-fynd â digon o gyllid i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Mae hyn yn golygu rhoi adnoddau i lywodraeth leol fel nad yw gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yn llethu ein cyllidebau. Mae hefyd yn bwysig, fodd bynnag, i sicrhau nad yw ymyriadau neu gyfrifoldebau newydd yn cael eu trosglwyddo i lywodraeth leol heb gynllun clir ar gyfer sut y dylid rhoi adnoddau iddynt a'u cyflawni. Dylid dilyn ein hargymhellion, er mwyn bod yn fwyaf effeithiol, fel pecyn o sawl ymyriad gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb
Dylai cyfrifoldebau llywodraeth leol, hen rai a rhai newydd, gyd-fynd â digon o gyllid i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn	Llywodraeth Cymru
<p>Gweithredu cylchoedd cyllido aml-flwyddyn ar gyfer llywodraeth leol, o leiaf dros gylch tair blynedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai hyn yn caniatáu mwy o sicrwydd o ran cyllid ac yn eu galluogi i gynllunio sut i ddefnyddio'r gweithlu a darparu gwasanaethau, ymhlith eraill, yn y tymor hwy. Setliadau tair i bum mlynedd sy'n arferol gan yr OECD, ac, yn Lloegr, mae symudiad tuag at setliadau tair blynedd. 	Llywodraeth Cymru
<p>Lleihau gwariant grantiau a glustnodwyd i 10% gydag uchelgais i ddileu grantiau a glustnodwyd yn gyfan gwbl dros y tymor hwy.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar hyn o bryd, mae 21% o wariant awdurdodau lleol wedi'i glustnodi a dim ond ar raglenni penodol y gellir ei wario. Byddai lleihau hyn yn cynyddu hyblygrwydd. 	Llywodraeth Cymru
<p>Gwella ac aildrefnu'r mecanwaith cydraddoldeb ariannol presennol gyda data presennol a metrigau newydd i adlewyrchu'r angen yn well.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r mecanwaith cydraddoldeb sydd wedi'i ymgorffori mewn cyllid cyngor yn gryfder sy'n cael ei gydnabod yn system Cymru, gyda'r nod o sicrhau bod mwy o gyllid yn cael ei ddarparu i feysydd sydd â mwy o angen. Er mwyn moderneiddio'r system hon ac adlewyrchu'n well amrywiaeth anghenion ledled Cymru, dylem wella ac aildrefnu'r mecanwaith cydraddoldeb gan ddefnyddio ffactorau fel gwledigrwydd, tlodi sydd wedi ymwreiddio, a'r galw am ofal cymdeithasol i sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Bydd diweddarau'r data hyn o bryd i'w gilydd yn sicrhau nad yw'r mecanwaith cydraddoldeb yn gogwyddo dros amser, a gallai gwneud y broses yn fwy tryloyw gynyddu ymddiriedaeth yn y system. 	Llywodraeth Cymru
Ailbriso'r dreth gyngor cyn gynted â phosibl yn y Senedd nesaf.	Llywodraeth Cymru
<p>Archwilio a gwerthuso ffynonellau refeniw ychwanegol fel prisio ffyrdd, ardollau ymwelwyr, trethi amgylcheddol, a ffioedd a thaliadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gellid ystyried prisio ffyrdd yn lle trethi cerbydau a ffyrdd presennol a'u gweinyddu gan awdurdodau lleol fel yr awdurdod priffyrdd yn eu hardal. Gellid neilltuo arian i gynnal a chadw ffyrdd, trafndiaeth gyhoeddus, a chefnogi newid moddol (gan gynnwys lleihau tagfeydd), a byddai fersiwn fwy uchelgeisiol o'r cynnig hwn yn casglu data ynghylch amseroedd a lleoliadau defnydd i alluogi modelau codi tâl gwahaniaethol. • Gallai trethi twristiaeth ac amgylcheddol hefyd gynhyrchu refeniw. • Gallai awdurdodau lleol gael mwy o ddisgresiwn dros bennu lefelau ffioedd a thaliadau a sut mae refeniw yn cael ei ddefnyddio. 	Llywodraeth leol Llywodraeth Cymru
<p>Ystyried a allai awdurdodau lleol gael cynnydd o drethi incwm a defnydd presennol neu'r pŵer i godi trethi eu hunain.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai hyn gael ei roi i awdurdodau lleol, naill ai fel cynnydd o gyfanswm y dreth a gymerir neu fel treth leol newydd, e.e. treth incwm neu werthiant lleol. Byddai hyn yn cefnogi mwy o ymreolaeth ariannol ac yn cysylltu dewisiadau polisi lleol â'r incwm a gynhyrchir gan awdurdodau lleol. 	Llywodraeth Cymru

<p>Archwilio bondiau trefol (cymunedol neu fasnachol) ar gyfer ariannu prosiectau cyfalaf.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai'r rhain fod yn offerynnau trefol cymunedol, gan gynnig y gallu i'r cyhoedd fuddsoddi mewn datblygiadau seilwaith lleol sy'n darparu budd cymunedol neu fanteision penodol i fuddsoddwyr. Byddai bondiau masnachol (a fyddai'n gofyn am ddeddfwriaeth) yn caniatáu ar gyfer mwy o fuddsoddiad pe baen nhw'n cael eu defnyddio'n ddoeth. 	<p>Llywodraeth leol Llywodraeth Cymru (i ddeddfu newidiadau deddfwriaethol)</p>
<p>Gweithredu system monitro ariannol dryloyw ac annibynnol i wella goruchwyliaeth a darparu rhybudd cynnar o drallod ariannol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai hyn yn cefnogi gwytnwch trwy gynnig system rhybuddio cynnar o ble y gallai awdurdodau lleol fynd i anawsterau ariannol. Gellid ei fodelu ar y system 'goleuadau traffig' a ddefnyddir yn Japan, neu enghreifftiau eraill o arfer gorau rhyngwladol. Bwriad system o'r fath fyddai bod yn ataliol yn hytrach na chosbi; trwy ddarparu arwydd cynnar o ble mae anawsterau ariannol yn datblygu, gellir rhoi cynlluniau ar waith i liniaru unrhyw gynnydd yn y galw neu ffactorau eraill sy'n achosi'r pwysau. Gallai'r system hon hefyd gynnwys dangosyddion eraill ynghylch canlyniadau (dysgu o'r broses asesu panel cyfoedion) i ystyried agweddau eraill ar berfformiad y cyngor. 	<p>Llywodraeth Cymru</p>
<p>Rhesymoli, cysoni a lleihau cyfaint ac amrywiaeth y data y mae'n ofynnol ei adrodd i Lywodraeth Cymru wrth gynnal goruchwyliaeth effeithiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Man cychwyn fyddai adolygu'r metrigau sy'n ofynnol eu hadrodd. 	<p>Llywodraeth Cymru Llywodraeth leol</p>
<p>Symud tuag at fframwaith cyllido a monitro sy'n seiliedig ar ganlyniadau gyda mwy o hyblygrwydd o ran sut mae arian yn cael ei wario.</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai hyn yn caniatáu i lywodraeth leol ddarparu gwasanaethau yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion lleol, gyda llwyddiant wedi'i bennu gan set o ganlyniadau a rennir sy'n ymwneud â meysydd polisi allweddol. Dylid cytuno ar ganlyniadau ac unrhyw ofynion cyflawni sy'n weddill rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, gan ganolbwyntio ar adrodd yn erbyn metrigau symlach, mwy tryloyw ac wedi'u cysoni. Gallai hyn ganiatáu mwy o gydweithio o gwmpas unigolion, a newid tuag at atal, er enghraifft, trwy ryddhau'r arian a'r capasiti a wariwyd ar fonitro, goruchwyllo a chydymffurfio ar hyn o bryd, a galluogi gwasanaethau i gael eu darparu'n wahanol. 	<p>Llywodraeth Cymru Llywodraeth leol</p>

Gweithlu, arweinyddiaeth a diwylliant

Mae datblygu model newydd a mwy cynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol yn golygu mynd i'r afael â materion gyda'n gweithlu, gan gynnwys nifer y gweithwyr, morâl a diwallu anghenion o ran sgiliau. Mae hefyd yn gofyn am dulliau arweinyddiaeth cryf, trawsnewidiol a datblygu diwylliannau sefydliadol agored a all feithrin arloesedd. Mae arweinyddiaeth glir a chyson o fewn y sector yn hanfodol nid yn unig ar gyfer datblygu diwylliant mewnol, ond hefyd i sbarduno newid gyda chyrff cyhoeddus eraill a gyda'r cyhoedd y maent yn ei wasanaethu, ac i wneud ac atgyfnerthu'r achos dros newid.

Gweithlu

Mae nifer y staff yn llywodraeth leol wedi gostwng tua phumed yn y degawd diwethaf, ac mae staff sy'n weddill yn gweithio'n galetach i lenwi'r bylchau. Oherwydd bod llawer o awdurdodau lleol wedi

blaenoriaethu diogelu darparu gwasanaethau rheng flaen, mae hyn yn arbennig o amlwg mewn canolfannau corfforaethol awdurdodau lleol sydd wedi'u gwagio, gyda llawer o bobl yn cymryd nifer o rolau o ganlyniad. Oherwydd y gwagio hwn, ceir goblygiadau i allu awdurdodau lleol i ddarparu ffyrdd newydd o weithio (gweler isod).

Gallwn hefyd weld problemau cynyddol sy'n ymwneud â recriwtio a chadw, yn enwedig mewn meysydd gwasanaeth fel gofal cymdeithasol sy'n cael eu heffeithio gan gyflog isel, amodau gwaith gwael a diffyg dilyniant gyrfaol. Mae rhwystrau strwythurol i ddilyniant gyrfaol ar draws llywodraeth leol, gydag ychydig o rolau uwch ar gael a throsiant isel yn y swyddi hyn. Mae bylchau sgiliau yn dod i'r amlwg wrth i rai awdurdodau lleol gael trafferth recriwtio i rolau mwy technegol, a gall cyflog fod ar ei hôl hi y tu ôl i'r sector preifat ar gyfer swyddi penodol. Mae salwch a morâl isel hefyd yn effeithio ar staff mewn llywodraeth leol, gyda salwch sy'n gysylltiedig â straen yn cynyddu.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb
<p>Diwygio amodau gwaith mewn awdurdodau lleol er mwyn cefnogi staff yn well.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai hyn fod trwy ddarparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer lles staff, cynyddu trefniadau a chyfluoedd gweithio hyblyg, a defnyddio pecynnau cadw wedi'u targedu, ochr yn ochr â newidiadau mewn diwylliant ac arweinyddiaeth i adlewyrchu dull agored ac sy'n meithrin. 	Llywodraeth leol
<p>Cynllunio'r gweithlu'n strategol ar y cyd i nodi anghenion sgiliau yn y dyfodol a bylchau sgiliau presennol, ac i ailadeiladu canolfannau corfforaethol llywodraeth leol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall hyn ein helpu i ddeall pa sgiliau sydd eu hangen nawr ac yn y dyfodol. Byddai hyn yn cyfrif am dueddiadau newydd ac sy'n dod i'r amlwg (e.e. effaith deallusrwydd artifisial ar y farchnad lafur) a datblygu modelau gweithredu newydd. Gellid defnyddio dulliau cynllunio'r gweithlu'n strategol hefyd i ailadeiladu canolfannau corfforaethol er mwyn rheoli prosesau arloesi a newid, neu i wella a chydlynu'r ddarpariaeth gwasanaethau yn well. Byddai cynllun o'r fath yn galluogi'r sector i dargedu'r sgiliau a'r rolau hyn wrth recriwtio, ac i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod piblinellau sgiliau a llwybrau yn cael eu llenwi. Byddai hefyd yn tynnu sylw at rai o'r heriau sy'n gofyn am atebion cenedlaethol (e.e. gwahaniaeth mewn cyflogau a thelerau ac amodau ar draws y sector cyhoeddus). Gellid ailgynllunio rolau i wahanu tasgau y mae'n rhaid eu cyflawni'n lleol o'r rhai y gellid eu gwneud o bell er mwyn gweithio'n fwy effeithlon. 	Llywodraeth leol Llywodraeth Cymru

Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth yn allweddol i feithrin diwylliannau sefydliadol da ac i hwyluso arloesi a newid. Gall hefyd gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau da a mecanweithiau atebolrwydd clir a chyson.

Mae arweinyddiaeth llywodraeth leol yn cynnwys aelodau etholedig a swyddogion, y ddau ohonynt yn gofyn am nodweddion rôl-benodol er mwyn llwyddo a gall y ddau ohonynt hwyluso neu rwystro ymdrechion i newid.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb
<p>Adolygu'r gefnogaeth a'r hyfforddiant a gynigir i Gynghorwyr / aelodau etholedig yng ngoleuni'r angen i symud tuag at fodel gweithredu newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gallai hyfforddiant gefnogi aelodau etholedig wrth i ni drosglwyddo i fodel gweithredu newydd a/neu berthynas newydd rhyngddynt a'u cymunedau. Bydd cynnal safonau ac ymddygiad uchel hefyd yn bwysig. 	Llywodraeth leol
<p>Dylai uwch swyddogion fabwysiadu dulliau arweinyddiaeth trawsnewidiol yn seiliedig ar fodel arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar ymddygiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall arweinyddiaeth drawsnewidiol gefnogi dulliau rheoli newid sensitif. Mae arweinyddiaeth seiliedig ar ymddygiad yn cynnwys dewis arweinwyr yn seiliedig ar, er enghraifft, sut maen nhw'n arwain a chefnogi timau (pa ddiwylliant maen nhw'n ei hyrwyddo, sut maen nhw'n cyflawni'r canlyniadau angenrheidiol), sut maen nhw'n adeiladu a chynnal perthnasoedd, a sut maen nhw'n cydweithio ag eraill. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael â chanfyddiad o fewn rhannau o weithlu'r awdurdod lleol bod arweinwyr yn anghysbell ac yn anatebol. 	Llywodraeth leol
<p>Dylai uwch swyddogion a rheolwyr gael digon o amser a lle ar gyfer datblygu a gwneud ymarferion myfyriol, a dylai rhwydweithiau cymorth gan gymheiriaid fod ar waith i gefnogi hyn.</p>	Llywodraeth leol
<p>Dylid nodi a chefnogi piblinell o ymgeiswyr arweinyddiaeth yn y dyfodol trwy fentora, cynnig cyfleoedd cyfranogol a hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Dylai hyn gefnogi dulliau caffael sgiliau rôl-benodol uwch fel rheoli rhyngweithio ag aelodau etholedig ac arweinyddiaeth wleidyddol, a meddwl yn strategol. 	Llywodraeth leol
<p>Dylai recriwtio allanol ganolbwyntio ar ddod ag unigolion â sgiliau a phrofiadau amrywiol, gan gynnwys craffter busnes neu brofiad yn y sector preifat.</p>	Llywodraeth leol
<p>Dylai arweinwyr hwyluso ac annog trawsnewid digidol, gan gynnwys mabwysiadu deallusrwydd artifisial, ar sail dryloyw ac atebol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Gall hyn gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chynyddu cynhyrchiant, ymhlith manteision cyhoeddus posibl eraill. 	Llywodraeth leol

Diwylliant

Mae diwylliannau sefydliadol da yn hanfodol i gynnal ymrwymiad a morâl gweithwyr yn ogystal â chefnogi'r gwaith o gyflawni gwerthoedd sefydliadol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn meithrin a datblygu diwylliant sy'n caniatáu i lywodraeth leol gyflawni ei hamcanion yn effeithiol, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno modelau gweithredu a ffyrdd newydd o weithio.

Mae gan arweinwyr rôl allweddol i'w chwarae wrth gataleiddio, cyfryngu a stiwardio newid diwylliannol. Bydd sefydliadau lle mae arweinwyr (ar bob lefel) yn gweld bod ganddynt ganiatâd i wneud pethau'n wahanol ac, yn hollbwysig, 'rhyddid i fethu' os nad yw newidiadau yn llwyddo, yn fwy llwyddiannus wrth ddatblygu diwylliannau agored ac arloesol.

Rydym yn cydnabod bod teimlad mewn rhannau o'n gweithlu nad yw hyn bob amser yn wir ac y gall fod goddefgarwch isel ar gyfer methu neu am gamu y tu allan i normau sefydledig. Gall gwrthwynebiad i risg hefyd fod yn rhwystr i newid.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb
Dylai diwylliant sefydliadol llywodraeth leol fod yn agored, yn arloesol ac yn ymatebol. Dylai'r diwylliant a ddymunir gael ei fynegi a'i integreiddio'n glir i gynllun gorfforaethol cyngor, cynllun ariannol tymor canolig, a'i agenda trawsnewid.	Llywodraeth leol
Dylai arweinwyr, swyddogion ac aelodau etholedig ddarparu cefnogaeth a chymorth i brofi dulliau newydd, gan gydnabod na fydd pawb yn llwyddo neu yn llwyddo ar unwaith.	Llywodraeth leol
Dylai cynghorau fod yn glir ynglŷn â ble a sut y bydd cydweithio yn helpu i ysgogi dysgu a newid, ac i gyflawni'r gwaith o ddatblygu gwahanol ffyrdd o weithredu.	Llywodraeth leol
Dylai cynghorau anelu at gymryd rhan mewn ecosystemau arloesi lleol ac efallai eu meithrin. Gallai'r rhain gynnwys grwpiau cymunedol, melinau trafod, y byd academaidd, rhanddeiliaid, y sector preifat ac eraill a allai nodi syniadau ac arferion o rywle arall y gellid eu gweithredu o fewn gwasanaethau cyhoeddus.	Llywodraeth leol
Dylai cynghorau gael mecanwaith neu ddull clir i gefnogi'r gwaith o ddatblygu neu addasu modelau gweithredu newydd, gan gynnwys y dulliau a argymhellir isod.	Llywodraeth leol
Cynnwys staff rheng flaen a defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd mentrau arloesi, yn enwedig lle maent yn effeithio ar gyflenwi o ddydd i ddydd, gyda chyfleoedd ar gyfer cyd-ddylunio neu bwysleisio mewnbwn defnyddwyr.	Llywodraeth leol
Cynnig cyfle i staff fwydo syniadau ar gyfer newid i'w sefydliadau a'u cynlluniau ar gyfer gwerthuso syniadau a hyrwyddwyd, a gwobrwyo ymddygiad arloesol i atgyfnerthu'r newid diwylliant a ddymunir.	Llywodraeth leol
Mabwysiadu dull graddol 'profi a dysgu' i newid yn seiliedig ar egwyddor o arbrofi diogel.	Llywodraeth leol
Rhoi llwybr clir o ran gweithredu i brosiectau newydd gyda mecanweithiau atebolrwydd ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni	Llywodraeth leol
Symleiddio prosesau biwrocraidaidd gan gynnwys cymeradwyo achosion busnes, a gwneud caffael yn fwy ystyth.	Llywodraeth leol

Datblygu model gweithredu newydd

Mae'r gwaith rydym wedi'i wneud yn awgrymu bod angen symud i fodel gweithredu newydd lle mae gwasanaethau yn cael eu darparu yn wahanol, a ffyrdd cynghorau o weithio yn newid.

Mae cyfyngiadau cyllidebol wedi gyrru addasiadau yn yr hyn y mae cynghorau yn ei wneud a sut maen nhw'n ei wneud. Fodd bynnag, mae angen newid mwy sylfaenol erbyn hyn. Mae model newydd, gan ymgorffori'r newidiadau rydym am eu gweld yn y ffordd rydym yn ymdrin â'n cyfrifoldebau (atal, ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, newidiadau yn y ffordd y mae'r dinesydd yn ymwneud â'r

wladwriaeth ac ati), yn gofyn am newidiadau sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau sefydliadol traddodiadol ac a allai ymestyn archwaeth risg awdurdodau unigol.

Bydd datblygu model newydd yn gofyn am (ail)adeiladu'r gallu o fewn y sector i arloesi a rheoli newid. Gan fod canolfannau corfforaethol wedi'u tynnu, a swyddogaeth pennu cyfeiriadau strategol awdurdodau lleol wedi'i chyfeirio at reoli cylchoedd cyllideb tymor byr, ni all awdurdodau unigol bellach alw ar yr un adnodd mewnol ag y gallent fod wedi gallu ei wneud unwaith. Nid yw hyn yn ymwneud â'r dalent sydd ar gael mewn awdurdodau lleol, ond am sut mae pobl wedi gorfod gweithio i ddarparu gwasanaethau o dan bwysau cyllidebol difrifol. Er mwyn gallu gyrru'r newid hwn, bydd angen i ni adeiladu'r gallu ychwanegol hwn yn ein sefydliadau a datblygu diwylliannau sefydliadol sy'n meithrin ac yn gwerthfawrogi arloesedd.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi ein hymdrechion drwy fuddsoddi mewn gallu arloesi yn y sector. Adnodd cydweithredol a rennir a all gefnogi sawl cyngor fyddai'r cam cyntaf. Dylid datblygu union ffurf hyn drwy ymarfer cwmpasu a gynhelir gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â'r sector. Dylai beth bynnag sy'n dod i'r amlwg fod yn gallu gweithredu newid ystyrlon sy'n gymesur â graddfa'r her sy'n ein hwynebu. Byddai rhan o'r ymarfer hwn yn cynnwys nodi disgwyliadau ynghylch sut mae'r adnodd hwn yn cael ei ariannu a chyfrifoldebau ynghylch datblygu mentrau newydd a sut maent yn cael eu profi a'u cyflawni. Bydd angen i ni hefyd fod yn glir ynghylch ble byddai'r capasiti yn 'eistedd' ac a fyddai'n ategu, disodli neu'n adeiladu ar waith presennol. Rhaid i'r adnodd weithio ar gyfer llywodraeth leol a chael ei profi gyda'r sector ac yn y sector i sicrhau ei fod yn gallu cefnogi'r gwaith o brofi a defnyddio modelau arloesol a gwella gallu llywodraeth leol.

Rydym yn cydnabod nad ydym yn dechrau o'r dechrau: mae gwaith parhaus ym maes trawsnewid digidol y gellir adeiladu arno i gefnogi darpariaeth gwasanaethau, ac mae cydweithwyr ar draws llywodraeth leol yn gweithio'n ddiflino i gynnal eu gwasanaethau yn wyneb yr anawsterau presennol. Dylai'r gwaith hwn gael ei ymgorffori yn ein dull cytunedig, gyda ffocws ar y newidiadau diwylliannol, sefydliadol a gweithredol sydd eu hangen i drosglwyddo i fodel newydd.

Argymhelliad	Cyfrifoldeb
Buddsoddi mewn ailadeiladu'r gallu i arloesi yn y sector	Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â llywodraeth leol
<p>Datblygu dull cytunedig i gefnogi'r gwaith o ddatblygu model newydd o lywodraeth leol, gyda syniadau ac opsiynau pendant ar gyfer datblygu model neu adnodd i gynyddu'r gallu i arloesi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd angen i'r model neu'r adnodd hwn fod yn gymesur â maint yr her, bydd angen nodi'n glir cyllid a chyfrifoldeb am ddatblygu a chyflawni, a bydd angen ymagwedd y cytunwyd arni o ble byddai capasiti yn eistedd a sut y byddai'n disodli, yn ategu neu'n adeiladu ar fentrau presennol. • Dylai hyn adeiladu ar waith presennol a chanolbwyntio ar newidiadau diwylliannol, sefydliadol a gweithredol sydd eu hangen i drosglwyddo i fodel newydd. • Dylai unrhyw fodelau newydd a ddatblygir adlewyrchu pwrpas llywodraeth leol (h.y. democratiaeth leol a'r cysylltiad sydd gennym â'n cymunedau), a bod gweledigaeth glir ar gyfer yr hyn rydym am drosglwyddo iddo. 	Llywodraeth Cymru Llywodraeth leol

Beth sy'n dod nesaf?

Byddai mabwysiadu'r mesurau a gynigir yn y papurau safbwynt hyn yn galluogi'r sector i ddechrau adeiladu sylfaen ddiogel ar gyfer llywodraeth leol yn y dyfodol. Yn benodol, gall dod o hyd i ffordd i wella gwytnwch system gyllid llywodraeth leol a chynyddu ymreolaeth mewn gwariant gynnig newidiadau pellach a fydd yn hanfodol i sicrhau ein cynaliadwyedd hirdymor.

Fodd bynnag, er mwyn gwireddu potensial a phwrpas llywodraeth leol yn llawn, mae angen newidiadau mwy pellgyrhaeddol dros y tymor hwy. Rhaid i'r sector weithio gyda'i gilydd a gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar gyfeiriad y daith a chymryd camau pendant tuag ato, gan ddechrau yn gynnar yn nhymor newydd y Senedd.

Mae'r grŵp wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer sut olwg fyddai ar lywodraeth leol sy'n cael ei arwain yn bwrpasol, yn ystwyth ac sy'n canolbwyntio ar y dyfodol a byddant yn cyhoeddi hyn, ochr yn ochr ag argymhellion ar sut rydym yn dechrau symud tuag at y weledigaeth hon, ar ôl etholiad y Senedd.

Cyfeirnodau

Ashelford, R. (2026a). **Transforming local government in Wales: Part 1: Exploring the evidence.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: <https://wcpp.org.uk/report/foundations-for-developing-a-new-model-of-local-government-in-wales/>

Ashelford, R. (2026b). **Transforming local government in Wales: Rhan 2: Testing our starting points.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: <https://wcpp.org.uk/report/foundations-for-developing-a-new-model-of-local-government-in-wales/>

Archwilio Cymru. (2021). **At Your Discretion: Local Government Discretionary Services.** Cyrchwyd o: <https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/At-your-discretion-English.pdf>

Independent working group on sustainable local government for the future. (2025). **The purpose and functions of local government in Wales.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: <https://wcpp.org.uk/project/sustainable-local-government-for-the-future/>

Independent working group on sustainable local government for the future. (2026). **Foundations for developing a new model of local government in Wales.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: <https://wcpp.org.uk/report/foundations-for-developing-a-new-model-of-local-government-in-wales/>

Muldoon-Smith, K. (2026). **A critical juncture for change: Local government finance reform in Wales.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Cyrchwyd o: <https://wcpp.org.uk/report/foundations-for-developing-a-new-model-of-local-government-in-wales/>

Atodiad: Y gweithgor annibynnol ar lywodraeth leol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol

Sefydlwyd y gweithgor annibynnol ar lywodraeth leol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ystyriodd y grŵp heriau a chyfleoedd ar draws cylch gwaith llywodraeth leol er mwyn datblygu gweledigaeth glir a chynigion ar gyfer llywodraeth leol bwrpasol a chynaliadwy.

Aelodau'r grŵp

- Yr Athro Steve Martin, Prifysgol Caerdydd, cadeirydd
- Y Cynghorydd Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy
- Y Cynghorydd Darren Price, cyn Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin
- Y Cynghorydd Mark Pritchard, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
- Rob Thomas, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Bro Morgannwg
- Eifion Evans, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Sir Ceredigion
- Emma Palmer, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Sir Powys
- Martin Nicholls, Prif Swyddog Gweithredol, Cyngor Abertawe
- Max Caller CBE, cyn Prif Gomisiynydd, Cyngor Dinas Birmingham
- Simon Brindle, Cyfarwyddwr Gwelliant Parhaus, Llywodraeth Cymru (Arsylwr)
- Paula Walters, Pennaeth Dros Dro Polisi a Gwasanaethau Corfforaethol, CLILC (Arsylwr)

Cefnogwyd y grŵp gan dîm o fewn WCPP, a ddarparodd dystiolaeth, mewnbwn a chynllun ar gyfer trafodaethau ac allbynnau a ddrafftwyd:

- Dan Bristow, Cyfarwyddwr
- Dr Helen Tilley, Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer (Llywodraeth Cymru)
- Dr Jack Price, Cydymaith Ymchwil
- Ioana Filipas, Prentis Ymchwil
- Yasmine Ghorayeb, Cynorthwydd Ymchwil

Gwybodaeth am y gweithgor annibynnol ar lywodraeth leol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol

Sefydlwyd y gweithgor annibynnol ar lywodraeth leol gynaliadwy ar gyfer y dyfodol gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd y grŵp yn ystyried heriau a chyfleoedd ar draws cylch gwaith llywodraeth leol ac yn datblygu gweledigaeth a chynigion clir ar gyfer llywodraeth leol bwrpasol a chynaliadwy.

Mae'r grŵp, sy'n cynnwys arweinwyr cynghorau, prif weithredwyr ac arbenigwyr annibynnol, yn cael ei gadeirio gan yr Athro Steve Martin a bydd yn adrodd ar ei ganfyddiadau cyn etholiad y Senedd 2026.

Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi arweiniol i ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau o ran polisi.

Mae'r Ganolfan, a ariennir gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Jack Price

+44 (0)29 2087 5345

jack.price@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP

